



Mawrth 17eg 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma a diolch i Wendy a Bethan Reynolds ac Huw M Roberts am gymryd gofal o'r gwasanaeth. Sian sy'n cyfeilio.

**Yr Wythnosau Nesaf**

**Mawrth 24ain - Y Parchg. Gethin Rhys gyda Wyn Jones, a Bethan yn cyfeilio**

**Mawrth 31ain - Allan James gyda Lyn West ac Eleri yn cyfeilio**

**Ebrill 7ed - Cynan Llwyd gyda Lowri Roberts a Rhiannon yn cyfeilio**

**Ebrill 14eg - Y Parchg. Aled Edwards gyda Nia Williams gyda Eleri yn cyfeilio**

**Ebrill 21ain - Sul Teuluol gyda Heulyn a Catrin gyda Siân yn cyfeilio**

**Ebrill 28ain - Geraint a Caroline Rees gyda Bethan yn cyfeilio**

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:  
[carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com)

**MERCHED Y TABERNAACL**

*Dydd Iau, 11eg Ebrill  
am 11.00. a.m.*

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru  
Arddangosfa o waith Kyffin Williams.  
Fe fydd un o'r staff yn tywys ni o gwmpas.  
Enwau i Eifiona Hewitt.**

**ELUSENNAU 2019**

**Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi  
drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:  
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf  
Adref, Ysgol Tŷ Coch  
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA  
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn  
gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae  
CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn  
cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r  
cyflwr.**

**Merched y Wawr**

Mae Cangen Tonysguboriau yn estyn croeso i bawb (dynion hefyd!) i'w cyfarfod ar nos Fercher 10fed o Ebrill yng Nghanolfan Capel y Tabernacl am 7.30 pryd fydd Gwenno Rees yn rhoi ei hanes am ei blwyddyn ym Mhatagonia.

**CYNHADLEDD WANWYN  
CRISTNOGAETH 21**

*Ar 29 a 30 Mawrth*

yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar wefan:

<http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>



Estynnir gwahoddiad i fynychu noson yng nghwmni Dr Rowan Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymorth Cristnogol, ac Amanda Mukwashi, y Prif Weithredwr **am 7.30 nos Lun 1 Ebrill**

**yn Ararat, Eglwys y Bedyddwyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd** i gyd-fynd gyda lansiad eu strategaeth fyd- eang dros y cyfnod 2019-26 i ddileu tldi eithafol trwy geisio urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb. Bydd yna gyfle i holi'r ddau siaradwr ac i'r eglwysi ystyried y rôl nodedig sydd gan Gymru i'w chwarae.

Os ydych yn dymuno mynychu'r cyfarfod dylech gysylltu gyda Janet Evans, Cymorth Cristnogol Cymru erbyn 15 Mawrth:  
[jevans@cymorth-cristnogol.org](mailto:jevans@cymorth-cristnogol.org) Ffôn: 029 2084 4646.

**CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU**

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

**CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNAACL: 'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.**

## Gweddi Brian McLaren, 15 Mawrth 2019, y bore wedi cyflafan arall.....

Fe'm magwyd mewn cartref Cristnogol. Roedd y teulu'n ddefnosiynol, didwyll, ymdrechgar a thawel. Wedyn, fe dyfais i fod yn weinidog. Fe drwythais fy hun mewn diwinyddiaeth ac ystyriaethau ysbrydol.

Yn fwy diweddar, rwy wedi gweithio fel awdur, siaradwr ac ymgyrchydd, a hynny ar draws enwadau ac mewn cyd-destunau aml ffydd. Wedi'r holl flynyddoedd o weddi ac astudio, llafur a chariad, ar y bore hwn, wedi llofruddiaethau enbydus, dyma'r hyn yr wyf yn ei deimlo.

Beth bynnag eich hil, eich crefydd, plaid neu genedl, rwy'n parchu eich credoau.

Ag eto rwy'n gwybod fod eich credoau, wedi eu mynegi mewn geiriau, fel cerdiau aelodaeth er mwyn i chi gael mynediad i ryw gymuned grefyddol neu gilydd. Felly'n bwysicach na'r geiriau, dyma'r hyn sydd yn cyfrif:

Sut fyddwch yn byw, a sut fyddwch yn caru.

Dyna sut ry'ch chi'n dangos eich credoau, tu hwnt i'r geiriau. Hefyd, rwy'n parchu eich label, eich traddodiad, eich hanes a'ch hetifeddiaeth, y gwyliau a'r defodau sydd wedi'ch ffurfio. Ond yn fwy na hyn, yr hyn sydd yn cyfrif nawr yw hyn:

A wnei di sefyll dros fywyd dy gymydog o hil, neu grefydd neu blaid neu genedl arall, fel pe bai yn chwaer, brawd dad neu fam i ti? Onid yw hi'n rheidrwydd fod pobl dy hil, dy grefydd, dy blaid neu genedl yn dymuno bywyd, rhyddid, urddas a chyfle?

Yn sicr mae dy gymdogion sy'n wahanol i ti yn dymuno yr un pethau â thi. Ym mhob hil, crefydd, plaid a chenedl mae yna adain sydd o dan ddyllanwad ofn, dicter, trais a drwgdeimlad. Ac y mae adain hefyd, a honno yn adain sy'n tyfu, sy'n gwybod nad oes ffordd i heddwch, a hynny am mai heddwch ei hunan yw'r ffordd.

.....

## Y FYNWENT A'R RHANDIR

Datblygiadau'r Fynwent a'r Rhandir  
Mae'n bosib nad yw pawb yn ymwybodol o'r gwaith clirio anhygoel a gwblhawyd dros fisoedd y gaeaf gan dîm bach iawn o wirfoddolwyr ym mynwent a rhandir y capel.

Mae gennym le i ddiolch iddynt am roi wythnosau o'u hamser i gyflawni'r gwaith anodd o docio, clirio a llosgi'r holl ddrain a'r mieri oedd wedi cael rhwydd hynt i ffynnu ers blynyddoedd lawer. Pan ddaw cyfle cofiwch ddiolch i'r pedwar fu'n llafurio mor ddiwyd sef Emlyn 'Pens' Jones, Edwyn Evans, Mike West a John 'Llew' Thomas.

Ond nid dyma eu hunig gymwynas i ni gan iddynt hefyd gyflwyno adroddiad cynhwysfawr i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar ddechrau'r cynllun yn dangos y ffordd i fynd ati i gwblhau ail gymal y gwaith sef ehangu'r fynwent a chryfhau rheolaeth o'r rhandir. Wedi derbyn sêl bendith y Bwrdd i'w hargymhellion maent wedi bwrw ati yn ddiymdroi i drefnu bod contractwr yn dod a'u peiriannau pwrpasol i dorri rhai o'r coed mwyaf yn y fynwent, symud tunelli o bridd rhydd o'r rhandir er mwyn gwastadau'r tir yn ardal bellaf y fynwent a chludo gweddill y pridd rhydd i ben pellaf y rhandir. Bellach mae'r cynllun hefyd yn cynnwys creu lle parcio i nifer cyfyngedig o gerbydau ar dir y rhandir yn agos at y fynedfa.

Dros yr wythnosau nesaf gallwch ddisgwyl tipyn o brysurdeb o amgylch y capel ac felly mae'n bwysig iawn bod yn ofalus os byddwch yn ymweld â'r fynwent neu'r rhandir yn ystod y cyfnod hwn.



.....Fy mreuddwyd, fy ngweddi yw bod adain gyfiawn, hael a heddychlon pob hil, crefydd, plaid neu genedl yn codi a deffro, ac wrth wneud hynny yn dod o hyd i'w gilydd.

Wedi'r deffro, fy ngweddi yw y byddwn, wedi dod o hyd i'n gilydd, yn uno er mwyn lles pawb, i orchfygu ofn gyda doethineb sanctaidd a gorchfygu casineb gyda chariad chwyldroadol.

**Amen.**